



### **Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch pa wybodaeth mae'r Tîm Cwynion yn ei chasglu a'i defnyddio, a'ch hawliau chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Mae categorïau'r wybodaeth hon rydym yn ei chasglu, ei phrosesu, ei dal ac yn ei rhannu'n cynnwys:

- gwybodaeth bersonol (enw a gwybodaeth cysylltu fel cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost)
- manylion penodol eich cwyn a ddarparwyd gennych
- gwybodaeth amdanoch a gedwir ar ein systemau ac yr ydym wedi troi ati er mwyn ymchwilio i'ch cwyn

### **Pam rydym ni'n casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon**

Gall Tîm Cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) gasglu eich data personol oddi wrthy ch chi eich hun pan fyddwch yn gwneud cwyn, oddi wrth gynrychiolydd sy'n gwneud cwyn ar eich rhan neu oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os byddwch wedi cysylltu ag ef. Mae'r Cyngor yn cadw ac yn defnyddio eich data personol i'r dibenion canlynol:

- ein galluogi ni i gynnal ymchwiliad i'ch cwyn
- rhoi ymateb a chytuno camau priodol
- dysgu o'r profiad er mwyn llywio newid mewn polisi ac/neu broses

### **Gyda phwy y rhannwn y wybodaeth hon**

Pan fydd cwyn yn cael ei dwysáu, gallwn rannu'ch gwybodaeth gydag:

- Adrannau eraill y Cyngor
- Swyddogion Ymchwilio Annibynnol. Bydd hwn ar sail statudol ar gyfer cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r [Canllaw statudol](#) " [Canllawiau ar ddelio â](#)



## Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### [chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol".](#)

- Lle bo'n briodol, gallwn rannu gwybodaeth gyda'r GIG hefyd.

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005 yn rhoi grymoedd i'r Ombwdsmon ymchwilio i gŵynion gan aelodau'r cyhoedd am y gwasanaeth maen nhw wedi'i dderbyn gan y Cyngor. Mae'n ofynnol, dan Adran 14 y Ddeddf, i ni gyflenwi'r Ombwdsmon gydag unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani er mwyn ymchwilio i'r gŵyn. Bydd hyn yn cynnwys eich data personol.

### **Pam rydym yn rhannu'r wybodaeth hon**

Gallai CBSP rannu data cwynion gyda'r Swyddogion Ymchwilio Annibynnol lle mae'r gŵyn wedi symud ymlaen i gam 2 proses gwyno'r gwasanaethau cymdeithasol ac/neu'r Ombwdsmon os yw'n ystyried cynnal ymchwiliad.

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am unigolion heb ganiatâd oni fod y gyfraith a'n polisïau'n galluogi ni i wneud hynny. Rhannwn wybodaeth yn ddiogel. Bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth gennym ei chadw'n gyfrinachol yn ôl y gyfraith.

### **Gofynion casglu data**

Gallai'r Adran rannu gwybodaeth ddienw am Gŵynion Statudol at ddibenion:

- cynnal ymchwil neu ddadansoddiad
- llunio ystadegau
- darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad

Mae gan CBSP brosesau grymus ar waith i sicrhau y cynhelir cyfrinachedd ein data a bod dulliau rheoli llym ar waith mewn perthynas â throï at ddata a'i ddefnyddio.

Mewn rhai achosion, gallai'r gyfraith fynnu bod rhaid rhannu gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau eraill heb eich cytundeb, bydd hyn er mwyn diogelu oedolion neu blant gydag anghenion gofal a chefnogaeth a allai fod mewn perygl o niwed. Os bydd gan oedolyn mewn perygl ddiffyg galluedd i rannu ei wybodaeth, bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch ydy hyn er lles gorau iddyn nhw a dylent ddilyn yr egwyddorion isod.

Dylid rhannu unrhyw wybodaeth bersonol ar y sail ei bod:

- yn angenrheidiol at y diben y mae'n cael ei rhannu
- ond yn cael ei rhannu gyda'r rhai sydd ei hangen



## Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- yn gywir ac yn gyfoes
- yn cael ei rhannu'n ddiogel ac yn amserol
- yn cael ei chadw am gyfnod heb fod yn hwy na'r angen at y diben gwreiddiol.

Er mwyn rhoi mynediad i wybodaeth am Gŵyn Statudol, rhaid i sefydliadau gydymffurfio â thelerau ac amodau llym sy'n cwmpasu cyfrinachedd a thrin a thrafod data, trefniadau diogelwch a chyfraddau cadw a defnyddio'r data.

### **Y sail gyfreithiol y defnyddiwn y wybodaeth hon arni**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor feddu ar weithdrefn gwyno gyhoeddedig er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd sy'n derbyn unrhyw wasanaeth i wneud cwyn am y gwasanaeth hwnnw. Tasg a gyflawnir er lles y cyhoedd yw ymchwiliad i gŵynion.

Mae'r sail gyfreithiol i brosesu'ch gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 oherwydd mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gynhelir gan y Cyngor er lles y cyhoedd.

### **Storio'r wybodaeth hon**

Daliwn ddata personol yn ymwneud â'r ymchwiliad i gŵynion am y cyfnodau amser canlynol:

Cwynion Corfforaethol: 6 blynedd

Cwynion statudol yn ymwneud ag oedolion: 6 blynedd

Cwynion statudol yn ymwneud â phlant: 10 mlynedd

### **Gofyn am fynediad i'ch data personol**

### **Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol a gaiff ei drin gan BCBC?**

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:



1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
  
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

#### Yr hawl i gael gwybod

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol. Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys: dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.

Mae gan unigolion wahanol hawliau:

#### Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan:

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/>



Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r

wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu, ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ei darddiad.

*\* Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

### Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn



anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gennych chi.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

### Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os gwrthodwyd ef, y rhesymau dros y gwrthod.

### Hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sy'n debyg iawn arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Ond dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract y byddwch chi'n barti iddo.

### Yr hawl i gludadwyedd data



## Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi gaffael a defnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol.

Nid yw'r hawl yn berthnasol ond i'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i'r Cyngor.

### Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

### **Rhagor o Wybodaeth**

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol yn <https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/>

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn [foi@bridgend.gov.uk](mailto:foi@bridgend.gov.uk) neu ffoniwch (01656) 643565.

Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu os oes gennych bryderon ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor yn trin eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, os gwelwch yn dda, yn [foi@bridgend.gov.uk](mailto:foi@bridgend.gov.uk) neu ffoniwch (01656) 643565.

Gellwch hefyd godi pryderon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

2<sup>il</sup> Lawr, Churchill House

Churchill Way, Caerdydd

CF10 2HH



**Bridgend County Borough Council**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)

Gwefan: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)